# Adroddiad Blynyddol
# Medi 2013 - Awst 2014
# Adain y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau
# Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus a'r Celfyddydau
# Cyngor Sir y Fflint


**Pen Swyddog, Llyfrgelloedd Cyhoeddus a'r Celfyddydau: Pennie Corbett**
**Rheolwr y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau: Gwenno Eleri Jones**
**Swyddog Digwyddiadau Cymunedol 0.6: Beth Ditson**
**Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: Trefor Lloyd Roberts**

# Swyddog Digwyddiadau Cymunedol
# Adroddiad Blynyddol

## Danceblast - Prosiect Dawns Cymunedol
Yng ngwanwyn 2013, cyfranogodd y chwe grŵp cyntaf yn y prosiect Danceblast, a gydlynwyd gan Trefor Lloyd Roberts, Swyddog Datblygu'r Celfyddydau.

Cafodd yr ail grŵp o'r chwe grŵp cymunedol weithio ar Floc Hydref DanceBlast a ddechreuodd ym mis Medi 2013, a gydlynwyd gan Beth Ditson, Swyddog Digwyddiadau Cymunedol.

Ddydd Llun 2 Rhagfyr, cafodd diweddglo i brosiectau DanceBlast Gwanwyn 13 a Hydref 13 eu sgrinio yn Clwyd Theatr Cymru. Roedd y rhan fwyaf o'r gynulleidfa yn cynnwys cyfranogwyr sesiynau'r hydref a'u teuluoedd. Roedd tua 120 o bobl yn y digwyddiad.

**Partneriaid - NewDance ac Artist Ffilm Uma O'Neil**
Cafodd elfennau dawns y prosiect eu llunio a'u coreograffu gan Dîm New Dance. Cyflenwodd New Dance ymarferwyr dawns proffesiynol a oedd yn gweithio gyda'r chwe grŵp cymunedol i ddatblygu eu syniadau creadigol a choreograffu'r darnau.

Cafodd y dilyniant ffilm ei ysbrydoli gan y darnau dawns. Ffilmiodd Uma O'Neil a Pawan Mather y canlyniadau gorffenedig i gerddoriaeth fywiog y cyfansoddwr, Ynyr Llwyd. Cynrychiolaeth rymus a deinamig o'r ysbryd dynol parhaus ar bob cam o fywyd oedd y canlyniad, a adroddwyd drwy gyfryngau dawns a ffilm.

**Cyfranogwyr - Us UnLtd, Clwb Ieuenctid Bagillt, Grŵp Starburst Ysgol Merllyn, Clwb Bale Ysgol Gwynedd, Canolfan Ddydd Melrose, Canolfan Dysgu, Shotton**
YSGOL MERLLYN, GRŴP STARBURST, gyda'u darn dawns a ysbrydolwyd gan gerdd Dylan Thomas 'Clown in the Moon.' Gweithiodd ymarferydd dawns, Angela Fessi â'r grŵp hwn bob dydd Llun o 3.15 - 5:15pm. Aeth y sesiynau yn dda ac roedd ymrwymiad cadarn gan y grŵp a oedd yn cynnwys 16 o blant o'r ddau ryw rhwng blynyddoedd 1 a 6.

Mae CANOLFAN DYSGU, SHOTTON yn grŵp o bobl ifanc sydd wedi eu heithrio o addysg brif ffrwd. Maent yn anodd eu cymell, yn tueddu i fod yn swil a heb lawer o hyder. Angela Fessi oedd yr hyfforddwr dawns a weithiodd gyda nhw. Dewisodd y grŵp gerdd Dylan Thomas, 'Escape', fel eu hysbrydoliaeth. Cynhaliwyd sesiynau ar gyfer y grŵp bob bore dydd Mercher. Roedd tua 7 o ferched ac 1 bachgen, tua 14 i 15 oed.

Gweithiodd CANOLFAN DDYDD MELROSE gyda'r ymarferydd New Dance, Donna-Marie Morris. Roedd y grŵp hwn yn bobl hŷn. Amrywiodd y niferoedd. Dewisodd y grŵp 'Elm' gan Dylan Thomas fel ysbrydoliaeth ar gyfer eu darn. Cynhaliwyd y sesiynau bob prynhawn Gwener.

Gweithiodd Donna-Marie Morris hefyd gyda CHLWB BALE YSGOL GWYNEDD. Dewisodd y grŵp hwn hefyd i weithio gyda cherdd gan Dylan Thomas, 'Clown in the Moon.' Roedd hwn yn grŵp dawns profiadol a fwynhaodd y sesiynau a gynhaliwyd bob dydd Mawrth a dydd Gwener. Roedd tua 15 – 20 o ferched yn y grŵp, a oedd rhwng 7 ac 11 oed.

Ysbrydolwyd CLWB IEUENCTID BAGILLT gan gerdd Dylan Thomas, ‘Clown in the Moon'. Buont yn gweithio gyda’r ymarferwr dawns Catrin Wilson ar nosweithiau Mercher. Roedd y grŵp yn cynnwys 10 o ferched ifanc yn bennaf, sy'n anodd eu cyrraedd. Roeddent yn cymryd rhan yn y sesiynau, ac wedi’u hymrwymo iddynt.

Roedd US UNLTD yn grŵp heriol o bobl ddigartref 16 – 25 oed. Roeddent yn grŵp anodd i weithio â nhw, gan fod ymrwymiad yn anghyson ac roeddent yn brin o hyder. Roedd y sesiynau’n cael eu harwain gan Jamie Jenkins. Roedd grŵp craidd o 2 - 3 oedolyn gwrywaidd, ond galw heibio wnaeth eraill. Strwythurodd Jamie ei sesiynau i ddarparu ar gyfer anghenion penodol y grŵp. Dewisodd y grŵp gerdd Dylan Thomas, ‘Escape', fel eu hysbrydoliaeth.

**Cyllid:**

| | |
|---|---|
| **Incwm - £100 y grŵp x 12 grŵp** | **£1,200** |
| **Grant Cyngor Celfyddydau Cymru** | **£17,270** |
| **Grant Cadwyn Clwyd** | **£12,720** |
| **Cyllideb Cyngor ACE - Sir y Fflint** | **£1,000** |

## Cyfnewid Ieuenctid Japaneaidd 2014
## Medi 2013 - Awst 2014

Mae Ymddiriedolaeth Cyfnewid Ieuenctid Japaneiadd Optec yn ariannu chwe disgybl o Sir y Fflint i ymweld â Japan bob haf fel llysgenhadon ar gyfer y sir. Fe wnaeth chwe myfyriwr o Japan hefyd ymweld â Sir y Fflint, a ariannwyd gan siroedd Japan.

Mae'r broses yn dechrau ym mis Hydref gyda noson gyflwyno i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn teithio i Japan. Rhoddodd y rhai a gymerodd ran yn y daith gyfnewid yr haf blaenorol gyflwyniad yn amlinellu eu profiadau.

Mae myfyrwyr yn gwneud cais i gymryd rhan ac mae cyfweliadau’n digwydd ym mis Tachwedd. Mae chwe myfyriwr dros 16 oed yn cael eu dewis. Mae cyfarfodydd misol gyda myfyrwyr a'u teuluoedd yn digwydd drwy gydol y flwyddyn ac mae'r daith gyfnewid yn digwydd ym mis Awst bob haf.

**Cyfranogwyr:**
**Noswaith Gyflwyno: 42 (gan gynnwys gwesteion ac aelodau o'r teulu)**
**Ceisiadau: 10**

**Cyllid:**
**Ymddiriedolaeth JYE: £11,000**
**Cyfraniad Cyngor Sir y Fflint: Cyflog Swyddog Digwyddiadau Cymunedol**

## Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus ‘Youth Speaks’
## Tachwedd 2013

Mae cystadleuaeth Youth Speaks ar gyfer disgyblion Ysgolion Uwchradd yn cael ei rhedeg mewn partneriaeth â changen Sir y Fflint o’r Clwb Rotari. Gofynnwyd am ddatganiadau o ddiddordeb gan yr ysgolion uwchradd ym mis Gorffennaf, a dosbarthwyd ffurflenni cais ddiwedd mis Medi ar gyfer y cystadlaethau yn Nhachwedd.

Trefnwyd Rowndiau Cystadleuaeth Youth Speaks 2013 fel a ganlyn:
RowndiauRowndiau Canolradd, Dydd Gwener, 8 Tachwedd 9:15am yn y Theatr Ffilm, Clwyd Theatr Cymru, a Rowndiau Uwch ar ddydd Iau 14 Tachwedd am 9.15am, yn yr un lleoliad.

Gan mai dim ond pedwar tîm oedd yn cystadlu yn y Gystadleuaeth Ganolradd, a thri'n cystadlu yn y Gystadleuaeth Uwch, penderfynwyd peidio â chynnal y rowndiau yn Clwyd Theatr Cymru, ond i fynd â'r timau yn uniongyrchol i'r rowndiau terfynol. Cynhaliwyd y Cystadlaethau Terfynol yng Ngwesty Parc Beaufort ar ddydd Llun 25 Tachwedd 2013.

Roedd trefniadau ariannol newydd eleni yn golygu nad yw Addysg yn cefnogi'r prosiect hwn mwyach, wrth logi'r theatr ffilm fach yn Clwyd Theatr Cymru ar gyfer y rowndiau cychwynnol.  Erbyn hyn mae'r Clwb Rotari yn gyfrifol am elfennau ariannol y cystadlaethau.

Roedd llawer o unigolion o'r Clwb Rotari, teuluoedd ac athrawon yn bresennol ym mhob cystadleuaeth. Cafodd pob tîm fynd i'r rownd derfynol. Oherwydd salwch, nid oedd modd i Ysgol Uwchradd Penarlâg fynd i'r rowndiau terfynol.  Enillydd y Rownd Derfynol Canolradd oedd Ysgol Uwchradd Treffynnon. Enillydd y Rownd Derfynol Uwch oedd Ysgol Uwchradd Alun, yr Wyddgrug. Daeth cyfanswm o tua 65 o bobl i'r Rowndiau Terfynol. Ni wnaeth y tîm ACE gyfrannu'n ariannol at y prosiect hwn ar wahân i gyfraniad caredig amser y Swyddog Digwyddiadau Cymunedol.

**Cyfranogwyr: 7 Tîm Siarad Cyhoeddus**
**Cyllid: Clwb Rotari**

## Gŵyl Pobl Hŷn y Gwanwyn
## Mai – Mehefin 2014

Roedd Gŵyl Wanwyn ym Mai 2014 yn Sir y Fflint yn ddathliad dwy ran o gyfoeth o brofiad a dyfnder canfyddiad pobl dros 50 yn ein cymuned.  Mae hefyd yn dangos gwerth barddoniaeth fel ffurf ar gelfyddyd sy'n gallu cyrraedd calon ein cymuned mewn ffordd unigryw.  Ariannwyd prosiect eleni gan yr Ŵyl Wanwyn/Age Concern a Chyngor Sir y Fflint.  Cafodd y prosiect ei ddyfeisio a'i gydlynu gan Adain Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau Cyngor Sir y Fflint.

Yn ystod rhan gyntaf yr ŵyl, mynychodd trigolion Cyfleuster Gofal Ychwanegol Llys Eleanor yn Shotton dri gweithdy gyda'r bardd cymunedol, Sophie McKeand.  Yna, fe wnaethant ddilyn eu mympwy wrth gyfathrebu mewn barddoniaeth a rhyddiaith ynghylch sut mae adar yn trawsnewid ein bywydau.  Fe wnaethant ddarllen penillion gan Wallace Stevens, Gwyneth Lewis a WB Yeats cyn dod o hyd i'w lleisiau eu hunain a ffurfio cerddi sy'n mynegi eu personoliaethau ac yn darlunio eu profiadau o ran plu, hedfan ac amrywiaeth.

Cymerodd chwech o gyfranogwyr ran yn y tri gweithdy, ac fe wnaeth pawb fynd i'r arddangosfa o'r gwaith gorffenedig a chymryd rhan mewn darlleniadau barddoniaeth yn Llyfrgell Treffynnon.

Yn ail, rhoddodd cyfres o sgyrsiau gyda phobl hŷn yn llifo drwy dref Treffynnon ysbrydoliaeth i Sophie greu cerdd o'r enw Llif / Flow.  Mae'r gerdd yn adlewyrchu llif y dref ac isleisiau naratif lleol o syniadau sy'n cronni fel Ffynnon Gwenffrewi.  Mae Grŵp Archifau Cymuned Treffynnon a dau grŵp Addysg Oedolion wedi gweithio gyda Sophie i ysgrifennu'r gerdd a thrafod y gwaith

Roedd y bobl dros 50 oed a gyfrannodd at y darn hwn yn cynnwys pedwar o staff Llyfrgell Treffynnon, pump o bobl o Ddosbarth Llythrennedd Cymunedol Coleg Cambria, tri o bobl o Ystafelloedd Te Mill on the Hill, tri o bobl o Ffynnon Gwenffrewi, tua ugain o bobl a oedd yn cyfarfod yng Nghanol Tref Treffynnon, a phump o bobl o Grŵp Archifau Cymdeithas Treffynnon a'r Cylch.  Mae Clerc Cyngor Treffynnon wedi gofyn am gopi o'r gerdd i'w harddangos yn neuadd y dref.

**Cyfranogwyr: 40**

**Presenoldeb yn yr Arddangosfa: 120**
**Cyllid:**
Gan **Gan 'Gwanwyn' £450.00**
**Gan gyfranogwyr £80.00**
**Cost i Gyllideb ACE Cyngor Sir y Fflint £220**
**Cyfanswm cost £750 (ffioedd artist a deunyddiau)**

**Roedd yr adborth o'r arddangosfeydd fel a ganlyn:**
*Safon uchel iawn o waith – mae talent ym Mostyn!!! Da iawn*
*Werth ei weld. Talentog iawn*
*Proffesiynol iawn, clod gwirioneddol i chi i gyd*
*Am arddangosfa hyfryd - Alla i ddim aros i gyfrannu!!*

**Roedd adborth o'r gweithdai fel a ganlyn:**
**Cydlynydd Gweithgareddau Llys Eleanor:**
Dywedodd Julie Griffiths bod un o'r merched a oedd yn bresennol wedi cael dementia cynnar ac roedd yn rhyfeddu at y farddoniaeth a greodd. Pan ymunodd â'r grŵp dywedodd nad oedd hi'n mynd i ysgrifennu unrhyw beth, ond roedd yn hapus i wrando. Ysgrifennodd tair cerdd erbyn diwedd y sesiwn. Dywedodd Julie hefyd nad oedd y preswylwyr nad oedd yn dioddef o ddementia yn aml yn cael gweithgareddau wedi'u targedu atynt, ac roedd yn hapus i weld y rhan fwyaf o'r grŵp yn cynnwys y preswylwyr hynny.

**Cyfranogwyr Llys Eleanor:**
Roedd y cyfranogwyr yn frwdfrydig ac yn rhannu llawer o'u hargraffiadau.
Dwi*Dwi bob amser wedi caru barddoniaeth. Mae'n amser hir ers i mi ysgrifennu unrhyw beth.*
*Doeddwn i ddim yn meddwl y gallwn i ysgrifennu cerdd, ond dwi'n hoffi'r hyn a greais.*
*Roedd fy ngherdd yn sôn am golli fy ffrind gorau.*

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi dweud y byddent yn hoffi i Sophie ddychwelyd a chreu mwy o farddoniaeth gyda nhw. Gweithiodd un ohonynt drwy'r wythnos ar ei cherdd rhwng gweithdai a dywedodd ei bod yn gorwedd yn y gwely yn y nos yn meddwl am y peth. Nid oedd yr un cyfranogwr â hyder i ddarllen eu cerddi ar goedd yn y llyfrgell o flaen cynulleidfa ar y dechrau, ond fe wnaeth pob un ohonynt erbyn y diwedd.

***Bardd: Sophie McKeand***
*Roedd yn bleser llwyr gweithio gyda'r merched eithriadol o ddiddorol a chreadigol hyn, ac rwyf mor falch o'r farddoniaeth a gynhyrchwyd ganddynt o ganlyniad i'r gweithdai hyn.*

## DŴR A CHARREG:
## SAFLEOEDD HYNAFOL Y FFLINT GYDA GWLÂN GYMREIG
## Mehefin/Gorffennaf 2014

Dyfeisiwyd y rhaglen hon gan y Swyddog Digwyddiadau Cymunedol a gynhaliwyd gan y Rhaglen Wirfoddoli'r Rhai sydd wedi Ymddeol a Phobl Hŷn (RSVP) yn Sir y Fflint. Roedd yn brosiect tair rhan a oedd yn rhoi'r cyfle i gyfranogwr weithio ochr yn ochr ag artist ffeltio proffesiynol, Helen Melvin, drwy ddefnyddio gwlân lleol, llifynnau naturiol a thechnegau ffeltio cynnar. Maent yn dylunio ac yn creu tecstilau a ysbrydolwyd gan henebion cofrestredig yn Sir y Fflint sy'n adlewyrchu treftadaeth hynafol Gymreig. Y safleoedd a ddewiswyd i seilio eu gwaith celf ffelt arnynt oedd: Maen hir a chylch cerrig Penbedw yn Nannerch, Bryn Gop, sef yr ail fryn mwyaf yn y DU o waith dyn gydag ogofâu sy'n cynnwys olion Palaeolithig, croes garreg Maen Achwyfan yn Chwitffordd sy'n cynnwys dyluniadau'r Llychlynwyr, Eglwys y Santes Fair a Bryn y Beili yn yr Wyddgrug, a Ffynnon Santes Gwenffrewi yn Nhreffynnon.

Cafodd pob grŵp dri diwrnod o weithdai a oedd yn cynnwys ymweliadau safle, dysgu technegau ffeltio a chreu darnau tecstil gorffenedig. Cafodd y ffotograffau safle er mwyn cyfeirio atynt a'u harddangos eu darparu gan y ffotograffydd proffesiynol, Alan Whitfield.

- Roedd Grŵp un yn Grŵp Gwau Gwirfoddol i Bobl Hŷn ac Wedi Ymddeol Shotton a Chartref Gofal Llys Jasmine yn Yr Wyddgrug. Roedd y grŵp yn cynnwys 6 o gyfranogwyr, ond yn ystod rhai o'r gweithdai, fe ymunodd preswylwyr eraill â dementia. Fe wnaeth preswylwyr Llys Jasmine yn arbennig o dda o ystyried bod un ddynes yn eithaf bregus a dim ond yn gallu defnyddio un fraich, ac roedd dynes arall yn 95 oed ac nid wedi ceisio ffeltio erioed o'r blaen. Creodd ddarn o waith trawiadol. Gweithiodd y grŵp hwn gydag Eglwys y Santes Fair a Bryn y Beili am ysbrydoliaeth.

- Daeth yr ail grŵp o Grŵp Celf a Chrefft Greenfield o Grŵp Celf a Chrefft Treffynnon a Mostyn. Roedd yn cynnwys 7 o gyfranogwyr. Edrychodd y grŵp hwn ar groes garreg Chwitffordd a Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon am eu dyluniadau.

- Roedd gan y trydydd grŵp hefyd 7 o gyfranogwyr. Fe wnaethant ymweld â maen hir a chylch cerrig Nannerch a Bryn Gop.

Cynhaliwyd sesiwn breswyl pum niwrnod ychwanegol ag artist yng Nghanolfan Daniel Owen yn yr Wyddgrug (15-19 Gorffennaf). Roedd y sesiwn breswyl hon yn sesiwn 'galw heibio' oedd ar agor i'r cyhoedd o 10am - 4.00pm, gan gynnig arddangosiadau ffeltio ymarferol, trafodaeth ar liwio gwlân gyda lliwiau naturiol, gwaith celf ffelt ar y gweill, arddangosfa ffotograffig o'r safleoedd hynafol, a gwybodaeth i bobl sydd â diddordeb mewn prosiectau yn y dyfodol.

Cafodd y gwaith celf tecstilau a gwblhawyd ei arddangos yn oriel Melin Celf a Chrefft Treffynnon (29 Gorffennaf -03 Awst) ac yna am bedwar mis (Awst 2014, Hydref 2014, Ionawr 2015, Chwefror 2015) mewn llyfrgelloedd ledled Sir y Fflint. Agorwyd yr arddangosfa gan Gadeirydd Cyngor Sir y Fflint, y Cyng. Glenys Diskin.

Ariannwyd y prosiect hwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Adran Dwristiaeth Cyngor Sir y Fflint, ac Adain Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau Cyngor Sir y Fflint, a gydlynodd y prosiect ar ran Rhaglen Wirfoddoli'r Rhai sydd wedi Ymddeol a Phobl Hŷn. Costiodd y prosiect yn llai na £6000, ac fe gostiodd yn llai na £600 i'r tîm ACE, er nad yw'r prosiect yn dod i ben tan ddiwedd mis Chwefror 2015. Bydd yn cael ei arddangos mewn pedair llyfrgell Sir y Fflint tan hynny.

**Cyllid:**

| | |
|---|---|
| **Cyngor Celfyddydau Cymru** | **£3960.00** |
| **Twristiaeth** | **£ 700.00** |
| **Cyfranogwyr** | **£ 480.00** |
| **Cyllideb ACE** | **£ 700.00** |
| | |
| **Cyfanswm Cyllid** | **£5840.00** |

## Noson Allan
## Medi 2013 - Awst 2014

Mae Noson Allan yn fenter Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, sy'n galluogi cymunedau i roi perfformiadau yn eu Neuaddau Pentref lleol a Chanolfannau cymunedol.

Rhwng diwedd mis Awst 2013 a dechrau mis Medi 2014, cafwyd 22 o ddigwyddiadau Noson Allan yn Sir y Fflint. Roedd 18 o'r digwyddiadau yn gyfrwng Saesneg a phedwar yn gyfrwng Cymraeg.

Canslwyd un digwyddiad, a gostiodd £300 i'r gwasanaeth.

**Cyfranogwyr:**
Roedd prisiau tocynnau ar gyfer digwyddiadau yn £3.80 am sedd ar gyfartaledd, ond mae hyn yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf a chonsesiynau wrth gyfrifo costau tocyn. O 1,602 o seddi posibl, gwerthwyd 1,103 o docynnau. Cyfranogodd 130 o wirfoddolwyr i hyrwyddo'r perfformiadau.

**Cyllid:**
Gwerthwyd gwerth £4,440.50 o docynnau, a oedd tua £200 yn fwy nag yn 2012-2013 er bod yna ddeg yn llai o berfformiadau. Roedd dau berfformiad yn annibynnol ar gefnogaeth yr Awdurdod Lleol. Roedd cyfanswm y gwariant ar Noson Allan gan y tîm ACE yn £919.50, sy'n llai na £1 y pen, ac yn llawer llai na chost Noson Allan y llynedd, sef £2251.84. Talwyd £150 o'r swm hwn gan yr Ŵyl Gelfyddydau, sy'n golygu mewn termau gwirioneddol bod ACE wedi talu £769.50 tuag at y rhaglen Noson Allan yn Sir y Fflint. Ymddengys bod y dulliau a weithredwyd i leihau'r gost i'r tîm ACE wedi bod yn llwyddiannus, er bod llai o berfformiadau. Un broblem yw canslo, sy'n costio swm sylweddol. Canslwyd digwyddiad cyn i ni leihau ein cyfraniad o £150. Ni fydd canslo digwyddiad yn costio gymaint yn y dyfodol.

**Beth Ditson - Swyddog Digwyddiadau Cymunedol 0.6**





# Swyddog Datblygu'r Celfyddydau
# Adroddiad Blynyddol

## Cyngor Celfyddydau Cymru - Artistiaid Gweledol mewn Ysgolion
## Rhaglen Breswyl
## Medi 2013 - Mai 2014

Un o nodau allweddol y rhaglen breswyl hon mewn ysgolion yw'r bwriad i ysbrydoli dychymyg pobl ifanc, meithrin eu talent, ysgogi archwilio creadigol a dathlu llwyddiannau.

Mae Rhaglen Breswyl Artist mewn Ysgolion yn gweld Artistiaid proffesiynol yn gweithio mewn ysgolion cynradd, gan ddiweddu gydag arddangosfeydd yn Clwyd Theatr Cymru.

Cafodd pob ysgol bedwar diwrnod o weithdai. Caiff y disgyblion y cyfle i weithio ochr yn ochr ag artistiaid proffesiynol, gan archwilio prosesau o ddylunio, ymchwilio, dewis deunyddiau a chreu gwaith celf gan ddefnyddio technegau newydd.

Yn seiliedig ar y thema '*Rhigymau a Phosau*', cafodd y rhaglenni preswyl hyn eu cysylltu'n agos â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, gyda phwyslais ar ysgogi disgyblion gwrywaidd i ddarllen ac ymchwilio. Cafodd disgyblion a gymerodd ran yn y prosiectau eu hannog i wneud cais i fod yn aelodau o'r fenter ranbarthol 'Criw Celf'.

**Rhaglenni Preswyl:**
**Genre Celf:** Printio
**Artist:** Eleri Jones - Printio
**Cyfnod:** Hydref / Tachwedd 2013
**Ysgolion:** Ysgol Gynradd Gwynedd y Fflint, Ysgol Gynradd Parc Cornist, Ysgol Merllyn
**Cyfranogwyr:** 150 o ddisgyblion (CA2)
**Cynulleidfa Ymweliad Preifat:** 120

**Genre Celf:** Printio
**Artist:** Eleri Jones - Printio
**Cyfnod:** Tachwedd 2013
**Ysgolion:** Ysgol Trelawnydd, Ysgol yr Esgob ac Ysgol Nercwys
**Cyfranogwyr:** 125 o ddisgyblion (CA2)
**Cynulleidfa Ymweliad Preifat:** 140

**Genre Celf:** Printio
**Artist:** Ruth Thomas
**Cyfnod:** Ionawr, 2014
**Ysgolion:** Southdown, Ysgol Gynradd Mountain Lane ac Ysgol Gynradd Mynydd Isa
**Cyfranogwyr:** 160
**Cynulleidfa Ymweliad Preifat:** 140

**Cyllid Allanol - £13500**

## Katie Scarlett Howard
## Chwefror – Mawrth, 2014

Yn seiliedig ar y thema 'Pobl a Lleoedd yn ein Cymuned', roedd y rhaglen breswyl hon â chysylltiad agos â'r ysgolion yn ein cymunedau ehangach. Cymerodd y disgyblion ran i ymchwilio i adeiladau adnabyddus a phobl yn eu cymuned. Roedd y gwaith ymchwil hwn wedyn yn sail i'r cerflunwyr ceramig.
Cafodd pob ysgol bedwar diwrnod o weithdai.

**Genre Celf:** Cerflunydd
**Artist:** Katie Scarlett Howard
**Cyfnod:** Hydref - Tachwedd 2013 / Chwefror - Mawrth 2014
**Ysgolion:** Ysgol Pencoch, Ysgol Estyn, Ysgol Parc y Llan, Ysgol Penyffordd

**Cyfranogwyr:** 250
**Cynulleidfa Ymweliad Preifat:** 275
**Cyllid Allanol: £4500**

## Rhaglen Breswyl Cefyn Burgess Ysgol Taliesin / Babanod Shotton
## Mawrth – Mai, 2014

Gweithiodd Artist Tecstilau Proffesiynol, Cefyn Burgess, gyda disgyblion a staff yn Ysgol Taliesin a Babanod Shotton i ddylunio a chreu collage tecstilau yn seiliedig ar stori 'Taliesin', fel rhan o ddathliadau uno'r ddwy ysgol ac agor ysgol newydd Ysgol Tŷ Ffynnon. Bydd y gwaith celf a gymerodd 4 wythnos i'w greu yn cael ei osod yn yr ysgol newydd.
**Cyfranogwyr:** 250
**Cyllid Allanol £4000**

## Rhaglen Artist mewn Ysgol - Ysgol Croes Atti
## Ebrill - Mehefin 2014

Mae disgyblion o Ysgol Croes Atti wedi bod yn gweithio gydag artistiaid proffesiynol yn ystod Ebrill, Mai a Mehefin, i greu gwaith celf gwreiddiol a ysbrydolwyd gan y diwylliant Cymreig a'u cymuned gyfagos. Mae'r gwaith celf gorffenedig wedi'i osod o fewn yr ysgol a'r tir.
**Artistiaid:**
Katie Scarlet Howard - Cerflunydd
Ben Evans - Artist Amgylcheddol
Gary Drew - Cartwnydd
**Cyfranogwyr:** Gweithiodd pob artist gyda 200 o ddisgyblion yn ystod eu cyfnod preswyl o bythefnos
**Cyfanswm Cyfranogwyr:** 600
**Cyllid Allanol £10000**

## Sgwad Sgwennu Gwledig
## Tachwedd 2013 - Mai 2014

Mae Sgwad Sgwennu Gwledig Sir y Fflint yn cynnwys disgyblion mwy galluog a thalentog o dair ysgol gynradd.
Wedi'i hwyluso gan yr awdur proffesiynol Janys Chambers, maent yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn archwilio gwahanol genres ysgrifennu.

**Ysgolion:** Ysgol Trelogan, Ysgol y Llan Chwitffordd, Ysgol Gronant
**Cyfranogwyr:** 30
**Cyllid Allanol: £500**

## ‘Wynebau llon...traed yn dawnsio’
## Ebrill - Mehefin 2014

Yn sicr fe gafwyd Wynebau Hapus a Thraed yn Dawnsio yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych y Pasg diwethaf.
Fe wnaeth pobl ifanc o Gymunedau yn Gyntaf Dwyrain Sir y Fflint, a Dechrau’n Deg Sir Ddinbych weithio gyda'r artist gweledol proffesiynol Luned Rhys Parri a’r Ymarferydd Dawns Jamie Jenkins o NEW Dance, i greu gwaith celf ar y thema "Wynebau Llon...Traed yn Dawnsio".
Cynhaliwyd y prosiect hwn hefyd yng Nghanolfan y Dderwen, y Rhyl
Fe wnaeth y prosiect hwn archwilio sut mae pobl ifanc yn ymateb i emosiwn, beth sy'n eu gwneud yn hapus, a sut mae hyn yn cael ei ddangos yn gorfforol / yn cael ei gyfleu ar lafar, a hynny mewn dull hwyliog ac ymarferol.
Cafodd pob canolfan bedwar diwrnod o weithgareddau.
Daeth y prosiect i ben gydag arddangosfeydd i'w gweld yn Clwyd Theatr Cymru - 6 Mai - 10 Mehefin, 2014 / Oriel Llyfrgell y Rhyl - 24 Mai - 19 Gorffennaf, 2014, gyda phobl ifanc yn perfformio ochr yn ochr â'r arddangosion yn ystod yr agoriad swyddogol
.
**Cyfranogwyr:** 350
**Cynulleidfaoedd Ymweliad Preifat:** 120
**Cyllid Allanol: £5940**

Gellir gweld ffilm o'r digwyddiad ar: http://youtu.be/by3O8euAUUU

## Diwrnod Diwylliannol Tsieineaidd Penarlâg

Ymunodd ysgolion cynradd o Gonsortiwm Ysgol Uwchradd Penarlâg â’i gilydd ar gyfer 'Diwrnod Celfyddydau Diwylliannol Tsieineaidd' a chymryd rhan mewn naw gweithdy ffurfiau ar gelfyddyd Tsieineaidd gwahanol. Ymunodd disgyblion Blwyddyn 7 o Ysgol Uwchradd Penarlâg â nhw hefyd, sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau celfyddydol. Mae'r prosiect hwn yn gweithredu fel diwrnod pontio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 a fydd yn ymuno ag Ysgol Uwchradd Penarlâg yr Hydref hwn.
Nod y prosiect oedd:
• Codi ymwybyddiaeth y disgyblion o amrywiaeth diwylliannol a hyrwyddo cydraddoldeb.
• Codi ymwybyddiaeth y disgyblion o nodweddion tebyg a gwahanol diwylliant a thraddodiad, drwy ddathlu'r celfyddydau i gael gwybodaeth, dealltwriaeth a derbyniad, ac yn ei dro, i gefnogi ein hymgyrch yn erbyn hiliaeth ac anoddefgarwch.

**Ysgolion:** Ysgol Gynradd Ewloe Green, Ysgol Gynradd Sandycroft, Ysgol Gynradd Pentref Penarlâg, Ysgol Gynradd Northop Hall, Ysgol Gynradd Penarlâg, Ysgol Uwchradd Penarlâg

**Cyfranogwyr:** 320
**Cyllid Allanol: £3150**

## Diwrnodau Celfyddydau Creadigol
## Ysgol Uwchradd John Summers ac Ysgol Uwchradd Cei Connah
## Gorffennaf 2014

Prosiect pontio ysgol ar gyfer disgyblion **Blwyddyn Pump** gan ddefnyddio'r celfyddydau fel offeryn i gyflwyno disgyblion at eu Hysgol Uwchradd.

**Ysgolion Uwchradd:** Ysgol Uwchradd John Summers, Ysgol Uwchradd Cei Connah
**Ysgolion Cynradd**
Ysgol Gynradd Bryn Deva, Ysgol Gynradd Brookfield, Ysgol Gynradd Golftyn, Ysgol Gynradd Wepre, Ysgol Gynradd Queensferry, Ysgol Gynradd Sandycroft, Ysgol Gynradd Taliesin, Ysgol Gynradd St Ethelwold, Ysgol Cae Nant, Ysgol Bryn Deva

**Cyfranogwyr** - 400
**Cynulleidfa:** 100
**Cyllid Allanol: £5700**

## Gŵyl Ddawnsio '14
## Mehefin - Gorffennaf 2014

Denodd dathliad Dawns Clwyd Theatr Cymru berfformiadau gan 55 o ysgolion. Roedd safonau perfformiad yn ardderchog gyda disgyblion o 3 oed i 18 oed yn mynd ar y llwyfan.

Roedd hyn yn cynnwys:
**Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer athrawon mewn Dawns**
Fel rhan o'r Ŵyl Ddawnsio, cynhaliwyd rhaglenni preswyl DPP mewn 32 o ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys ymarferwyr dawns o NEW Dance yn cyflwyno sesiynau dawns mewn ysgolion gydag athrawon a disgyblion, i ddyfeisio perfformiad dawns ar gyfer yr Ŵyl Ddawnsio.

**Mae'n Fyd Mawr**
Wedi'i anelu at ddisgyblion o bum Hawl Bore Oes a Meithrinfa. Crëwyd perfformiadau dawns trwy adrodd straeon a chelf.
**Ysgolion:** Ysgol Gynradd Perth y Terfyn, Ysgol Gynradd Dewi Sant, Ysgol Gynradd Westwood, Ysgol yr Esgob, Ysgol Gynradd St Anthony.

**Cyfnod Sylfaen**
Wedi'i anelu at ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, crëwyd perfformiadau dawns yn seiliedig ar bynciau cwricwlwm
**Ysgolion:** Ysgol Gynradd Santes Gwenffrewi, Ysgol y Parc, Ysgol Terrig, Ysgol Bryn Gwalia, Ysgol Sefydledig Derwen, Ysgol Gynradd Drury, Ysgol y Llan, Ysgol y Waun, Ysgol Nannerch, Ysgol Gynradd Gwernymynydd. Ysgol Bryn Pennant, Ysgol Gynradd y Santes Fair, Ysgol Gynradd Mornant Picton, Ysgol Gynradd Wood Memorial, Ysgol Bryn Deva, Ysgol Croes Atti, Ysgol Pencoch, Ysgol Sealand, Ysgol Queensferry, Ysgol Brychdyn

**SYMUDWCH!**
Roedd Symudwch yn Brosiect Dawns i Fechgyn gan NEW Dance. Wedi'i anelu at fechgyn yng Nghyfnod Allweddol Dau, roedd y prosiect hwn yn eu cynnwys mewn gweithgareddau creadigol a oedd yn canolbwyntio ar ddawns yn cael ei ystyried yn weithgaredd iach a chadarnhaol. Daeth y prosiect hwn i ben gyda pherfformiad yn ystod Gŵyl Ddawnsio Sir y Fflint.
**Cyfranogwyr:** 60
**Ysgolion:** Ysgol Gynradd Sealand, Ysgol Gynradd Queensferry, Ysgol Gynradd yr Hybarch Edward Jones

**AGCHY**
Wedi'i anelu at ddisgyblion CA3, roedd perfformiadau dawns yn cael eu creu fel rhan o raglen DPP ar gyfer athrawon Addysg Gorfforol
**Ysgolion:** Ysgol Uwchradd Cei Connah, Ysgol Uwchradd y Fflint,
Ysgol Uwchradd Alun, yr Wyddgrug, Ysgol Uwchradd Penarlâg, Ysgol Uwchradd Elfed, Ysgol Uwchradd Bwcle ac Ysgol Maes Garmon

**Cyfranogwyr Gŵyl Ddawnsio -** 1700
**Cynulleidfa Gŵyl Ddawnsio -** 2100
**Cyllid Allanol: £21234**

Gellir gweld ffilm o raglen DPP Ysgolion yr Ŵyl Ddawnsio ar:
http://youtu.be/BRD52ThskGQ

## Lles dros yr Haf Sir y Fflint
## Mehefin 2014

Roedd Lles dros yr Haf yn gyfres o weithdai a chyrsiau a gynlluniwyd i hyrwyddo camau ymlacio i breswylwyr Sir y Fflint yn ystod Mehefin.
Wedi'i anelu at oedolion dros 18, rhoddodd y sesiynau blasu hyn gyfle i brofi ffurfiau newydd ar gelfyddyd.
Wedi'i drefnu ar y cyd gan adain Llyfrgelloedd, y Celfyddydau a Hamdden Cyngor Sir y Fflint, roedd gweithdai a arweiniwyd gan artistiaid proffesiynol yn amrywio o 'Dawnsio'n Donig', 'Canu a Symud,' 'Pwyth mewn Pryd' a 'Stori Lliw'.
**Cyfranogwyr: 300**
**Cyllid Allanol: £1000**

## Ysgolion Sir y Fflint yn Perfformio '14
## 1 - 5 Gorffennaf, Clwyd Theatr Cymru

Roedd gan Ysgolion Sir y Fflint yn Perfformio 2014 raglen amrywiol iawn o berfformiadau oedd yn arddangos y safon o dalent ragorol sydd gennym yn ein hysgolion a'n grwpiau cymunedol yn Sir y Fflint.
**Ysgolion:** 14
**Grwpiau cymunedol/Ysgolion:** 2

**Cyfranogwyr:** 500
**Cynulleidfa:** 600
**Cyllid: ACE wedi'i ariannu trwy'r Swyddfa Docynnau**

## Croesi Ffiniau, 'The Secret Garden'
## Mai – Gorffennaf 2014

Yn y prosiect traws sirol hwn fe weithiodd ysgolion gyda'r Cyfarwyddwr / Awdur proffesiynol Janys Chambers, ac Artistiaid Gweledol Andrea Davies a Sarah Carvell i greu perfformiad drama gwreiddiol yn seiliedig ar y nofel 'The Secret Garden'. Cafodd pob ysgol 11 diwrnod o weithdai. Roedd y perfformiad yn rhan o Ysgolion Sir y Fflint yn Perfformio

**Ysgolion:** Ysgol Trelogan, Ysgol Brynffordd, Chwitffordd, Ysgol Stryd y Rhos Rhuthun
**Cyfranogwyr:** 120
**Cynulleidfaoedd:** 400
**Cyllid Allanol: £8460**

## Prosiect Ysgolion Celfyddydau mewn Iechyd - Dyddiadur Aaron:

Rhoddodd y prosiect peilot hwn, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol BETSI CADWALADR, gyfle i ysgolion gael profiad creadigol a oedd yn hyrwyddo iechyd a lles trwy archwiliad artistig o stori wreiddiol a ysgrifennwyd gan Gwmni Theatr Shed, a ysbrydolwyd gan y chwedl Siapaneaidd am y 1000

darn papur.
Ymwelodd ymarferydd drama o Gwmni Theatr Shed â phob ysgol i rannu stori 'Dyddiadur Aaron' yn greadigol, ac i archwilio themâu'r pum argymhelliant o les meddyliol.

- Ffurfio cysylltiad
- Parhau i ddysgu
- Gwneud rhywbeth i rywun arall
- Mynd allan
- Bod yn weithgar

**Ysgolion:** Ysgol Trelogan, Ysgol Brynffordd, Ysgol yr Esgob Caerwys, Ysgol y Llan Chwitffordd, Ysgol Trelawnyd, Ysgol Gronant, Ysgol Sealand, Ysgol Nercwys

**Cyfranogwyr:** 240
**Cyllid Allanol: £2500**

| Crynodeb Ystadegol<br>Medi 2013 – Gorffennaf 2014 | |
|---|---|
| **Ysgolion sydd wedi cyfranogi:** | **70** |
| **Cyfranogwyr:** | **5540** |
| **Cynulleidfaoedd:** | **4400** |
| **Cyllideb Graidd Rhaglen Celfyddydau Ysgolion Cyngor Sir y Fflint:** | **£4,626.00** |
| **Cyllid Allanol a gafwyd:** | **£80484** |
| **Cyllideb Graidd Rhaglen Celfyddydau Ysgolion Cyngor Sir y Fflint a wariwyd fesul cyfranogwr** | **£0.83** |

**Dyfyniadau gan Gyfranogwyr o Ysgolion / Cymuned:**

*'Mae gan brofiadau celfyddydol proffesiynol y pŵer i drawsnewid, cyfoethogi ac ymgysylltu â bywydau'*
***Pennaeth Ysgol Sir y Fflint***

*'Roeddwn i'n teimlo'n fach iawn ar y llwyfan ... ond ar ôl y perfformiad roeddwn yn teimlo fel seren **ENFAWR**!'*
***Perfformiwr Gŵyl Ddawns, 10 oed***

*'Dw i ddim yn gallu aros tan y flwyddyn nesaf ... Amdani!'*
***Perfformiwr Gŵyl Ddawns, 12 oed***

*'Roedd ein dawns mor wirion a hyfryd...dwi wrth fy modd'*
***Perfformiwr Gŵyl Ddawns, 9 oed***

*'Dw i wrth fy modd yn dawnsio .. Gallwn ddawnsio drwy'r dydd ...Dw i hyd yn oed yn breuddwydio amdano, diolch yn fawr am adael i mi berfformio '*
***Perfformiwr Gŵyl Ddawns, 11 oed***

*'Dw i wedi cael the 'Time of My Life '... Lol!'*

***Perfformiwr Gŵyl Ddawns, 18 oed***

*'Mae bechgyn yn gallu dawnsio... .. Roeddwn i'n meddwl bod y symudiadau dawns yn wych a doeddwn i ddim yn gwybod bod dawnsfeydd yn gallu cael storïau'*
***Perfformiwr Gŵyl Ddawns, 10 oed***

*'Roeddwn wrth fy modd yn gwisgo i fyny a chael mynd ar y llwyfan mawr'*
***Perfformiwr Gŵyl Ddawns, 7 oed***

*'Fel y blynyddoedd blaenorol, rydym wedi gweld hyder a hunanhyder y plant yn codi o ganlyniad i'w cyfranogiad. Mae'r profiad o berfformio ar lwyfan proffesiynol, yn rhywbeth na fyddant fyth yn ei anghofio'*
***Pennaeth Ysgol y Llan, Chwitffordd***

*'Mae dawnsio gwneud i mi deimlo'n braf'*
***Perfformiwr Gŵyl Ddawns o'r Feithrinfa, 4 oed***

*'Mae dawnsio'n gwneud i mi chwerthin a symud fel jeli..'*
***Perfformiwr Gŵyl Ddawns o'r Feithrinfa, 3 oed***

*'Fel Pennaeth, hoffwn gyfleu fy niolch a fy nghanmoliaeth i raglen ysgolion yr Ŵyl Ddawnsio a'r tîm o ddawnswyr a oedd yn gweithio gyda fy Adran Meithrin er mwyn eu galluogi i berfformio mor dda. Roeddwn yn falch iawn o weld fy sêr bach yn disgleirio mewn digwyddiad o'r fath! Boed i'r profiad barhau.'*
***Pennaeth Ysgol Gynradd Westwood***

*'Dim byd fel hyn, mae angen mwy o ddigwyddiadau fel hyn. Mae'n helpu fy ngŵr gyda Parkinsons a'i gyfaill â Dementia i fynd yma a thraw, diolch o galon i chi! Pryd mae'r un nesaf?'*
***Mynychwr Lles yr Haf, 'Canu, Symud a Sgonsen'***

*'Sesiwn wych heddiw, yn werth yr ymweliad, ac roedd y gweithdy'n wirioneddol ysbrydoledig'*
***Mynychwr Lles yr Haf 'Stori Lliw gyda Jan Gardner'***

*'Llawn gwybodaeth, wyf yn mynd i ymuno â grŵp wythnosol, rwyf wedi ymlacio'n llwyr'*
***Mynychwr Lles yr Haf 'Therapi Tai Chi'***

*'Pleserus iawn, rwy'n teimlo'n well wrth chwerthin, sgwrsio a chwrdd â phobl'*
***Mynychwr Lles yr Haf, 'Canu, Symud a Sgonsen'***

*'Ysgrifennais ddrama gyfan mewn diwrnod!'*
***Aelod Sgwad Sgwennu Gwledig, 11 oed***

***'Mae'n wych ... mae ein hawdur wedi bod ar y teledu!!'***
*Aelod Sgwad Sgwennu Gwledig, 11 oed*

*'Fe wnaeth ein disgyblion talentog "Sgwad Sgwennu" hefyd fwynhau gweithio gyda Janys Chambers a daethant yn ôl i'r ysgol wedi'u hysbrydoli ac yn llawn brwdfrydedd dros ysgrifennu. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi'*
***Pennaeth Ysgol y Llan, Chwitffordd***

*'Dw i eisiau bod yn actor pan fyddaf yn hŷn a mynd i Hollywood'*
***Perfformiwr Ysgolion Sir y Fflint yn Perfformio, 14 oed***

*'Cefais amser gwych ar y llwyfan, ac fe gawsom ein hystafell wisgo ein hunain hyd yn oed!'*
***Perfformiwr Ysgolion Sir y Fflint yn Perfformio, 15 oed***

*'Doeddwn i ddim yn gallu gweld fy mam yn y gynulleidfa, ond fe wnes i ei chlywed hi'n gweiddi!'*
***Perfformiwr Ysgolion Sir y Fflint yn Perfformio, 10 oed***

*'Mae gweithio â'r celfyddydau yn gwneud i'r bechgyn gymryd mwy o ddiddordeb a byddwn yn sicr yn gweld cynnydd yn eu cyflawniad academaidd '*
***Pennaeth Dros Dro, Ysgol Croes Atti***

***'Rwy'n hoffi gwneud llanast gyda'r clai'***
*Rhaglen Breswyl Artist mewn Ysgolion - Cyfranogwr 8 oed*

*'Mae fy ngwaith celf i fyny ar y wal yn yr ysgol, rydw i'n ei weld bob dydd'*
***Rhaglen Breswyl Artist mewn Ysgolion - Cyfranogwr 7 oed***

***'Roedd chwilio am Rigymau i'n harlunydd mor ddoniol....'***
*Rhaglen Breswyl Artist mewn Ysgolion - Cyfranogwr 8 oed*

*'Mewn celf fe wnes i ffrindiau newydd oherwydd roedd yn rhaid i ni weithio gyda dosbarth arall'*
***Rhaglen Breswyl Artist mewn Ysgolion - Cyfranogwr 7 oed***

*'Mae celf yn gwneud i mi wenu ... .. dydi o ddim fel mathemateg'*
***Rhaglen Breswyl Artist mewn Ysgolion - Cyfranogwr 9 oed***

*'Mae ariannu'r Rhaglen ar gyfer y "Diwrnodau Celfyddydau Creadigol" yn enghraifft wych o arian a wariwyd yn dda iawn. Mae'r rhaglen yn galluogi ein disgyblion Blwyddyn 6 lleol i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau artistig ac i gael profiad o'r broses greadigol... '*
***Pennaeth, Ysgol Uwchradd John Summers***

**Cyfeirnod Talfyriadau**
CSyFf – Cyngor Sir y Fflint
CSDd - Cyngor Sir Ddinbych
CCC - Cyngor Celfyddydau Cymru
CCGD - Celfyddydau Cymunedol Glannau Dyfrdwy
YG – Ysgol Gynradd Sirol
YU - Ysgol Uwchradd
AGCHY – Addysg Gorfforol a Chwaraeon yn yr Ysgol



**Yn cynrychioli Cyngor Sir y Fflint ar:**
CThGC - Cymdeithas Theatr Gymunedol Clwyd
Celfyddydau Cymunedol Glannau Dyfrdwy
Bwrdd Ymddiriedolwyr NEW Dance
Rhwydwaith Celfyddydau a Chrefft Gweledol Sir y Fflint
Grŵp Rhanddeiliaid Celfyddydau mewn Iechyd a Lles Gogledd Cymru
Grŵp Llywio Celfyddydau a Lles BETSI Cadwaladr
Grŵp Swyddogion Datblygu Celfyddydau Clwyd Theatr Cymru / Cyngor Celfyddydau Cymru
Fforwm Athrawon Drama Sir y Fflint a Sir Ddinbych
Datblygu'r Celfyddydau DU

**Trefor Lloyd Roberts - Swyddog Datblygu'r Celfyddydau**

# Rheolwr y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau
# Adroddiad Blynyddol

## Gwyliau a Phrosiectau

### Her Feicio Taith Prydain
### Dydd Mercher 18 Medi 2013

Fe wFe wnaeth Llanberis gynnal diwedd Cam Pedwar ym Medi 2013. Dyma’r tro cyntaf i Daith Prydain ymweld â Gogledd Cymru, gyda’r cam yn mynd drwy Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy cyn gorffen yng Ngwynedd. Roedd miloedd o bobl ar ochr Ffordd Rhuthun drwy Wernymynydd, wrth i'r ras wibio heibio gyda Syr Bradley Wiggins a Mark Cavendish yn cymryd rhan. Mae Taith Prydain wedi cyflwyno Cynllun Busnes 5 mlynedd gan gynnwys cam Gogledd Cymru bob blwyddyn. Yn 2014, bydd y ras yn dod drwy Ganol Tref yr Wyddgrug a'r gobaith yw y bydd Sir y Fflint yn gallu cynnal dechrau neu ddiwedd cam yn 2015 neu 2016.

**Cyllid: £13,000 o Gyllideb Adfywio Cyngor Sir y Fflint**

### Stiwdios Agored Helfa Gelf
### Medi 2013

Ym Medi 2013, fe gyfranogodd 35 artist o 18 stiwdio yn Sir y Fflint mewn Helfa Gelf, sydd wedi bod yn rhedeg mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint am bum mlynedd. Mae Helfa Gelf yn fenter Stiwdios Agored Gogledd Cymru mewn partneriaeth â’r pum Awdurdod Lleol ar y tir mawr, yn ogystal ag Wythnos Gelf Ynys Môn. Eleni cafwyd y ffigurau ymwelwyr uchaf hyd yn hyn yn Sir y Fflint, gyda 1,573 o bobl yn ymweld â'n hartistiaid bob penwythnos ym mis Medi. Trefnwyd taith bws am ddim ar gyfer y rhai a oedd yn ei chael yn anodd teithio, gyda 16 o bobl arno.

**Artistiaid: 35 o 18 stiwdio**
**Ymwelwyr: 1,573**

**Cyllid:**
**Cyllideb ACE Cyngor Sir y Fflint £2,000 (fel rhan o gyfraniad ALI Gogledd Cymru o £12,000)**
**Cadwyn Clwyd £40,000 (ar draws Gogledd Cymru)**
**CCC £30,000 (ar draws Gogledd Cymru)**

**Cyfanswm a wariwyd yn Sir y Fflint £13,667**

### Gŵyl y Goleuni Gronant a Thalacre
### Hydref 2013

**Nod**

Wedi’i ddyfeisio, ei reoli a'i gydlynu gan y Rheolwr ACE, nod y prosiect oedd dod â chymunedau Gronant a Thalacre ynghyd dros gyfres o weithdai celf, i greu llusernau cerfluniol cludadwy mawr, gosodiadau golau, gan gynnwys tafluniad ar oleudy Talacre, a baneri stryd i fod ynghlwm wrth y polion lamp. Daeth yr holl waith celf a gynhyrchwyd i ben gyda dathliad o olau yn Nhalacre ar ddydd Sul 27 Hydref 2013 yn ystod prynhawn a noswaith o fwyd, cerddoriaeth a gwaith celf yn seiliedig ar olau.

**Partneriaid**
Gweithredwyd y prosiect mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cefn Gwlad, adain Datblygu Economaidd a Thwristiaeth Cyngor Sir y Fflint. Y partneriaid allanol oedd Dangerpoint, busnesau lleol, BHP Billiton a Chyfoeth Naturiol Cymru. Cafodd y prosiect ei ariannu gan Gadwyn Clwyd £15,000, Cyngor Celfyddydau Cymru £5,000, a Thwristiaeth Cyngor Sir y Fflint £1,000 a'r Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau £1,000.

Cafwyd cymorth hefyd gan Oleuadau Stryd a asesodd addasrwydd polion lamp y pentref a gosod y baneri ar y pyst. Fe wnaeth Strydlun hefyd gynorthwyo drwy gyflenwi biniau ailgylchu a gwastraff a chwilio am sbwriel yn yr ardal ar ôl y digwyddiad.

**Gweithdai Llusernau**
Gwahoddwyd ysgolion a grwpiau cymunedol o Ronant, Talacre a'r ardal gyfagos i weithio gyda'r artist, Ben Davies, yn arbenigo mewn creu cerfluniau llusernau cludadwy mawr. Cafodd pob grŵp hyd at 3 gweithdy, 2 awr yr un (cawsant eu cyflwyno fel gweithdy un diwrnod 6 awr lle bo angen) i greu eu llusern cerfluniol yn seiliedig ar y thema 'Ar Lan y Môr', 'Ein Harfordir Naturiol' 'Ein Hanes Lleol' a beth sy'n bwysig iddyn nhw am eu cymuned. Yn dibynnu ar faint y grwpiau, fe wnaethant greu o leiaf un, ond fe wnaeth rhai grwpiau greu tair llusern yr un i fod yn rhan o orymdaith trwy Talacre i'r Goleudy ar noson yr ŵyl. Ar y cyfan, fe wnaeth hyd at 200 o bobl gymryd rhan yn y gweithdai. Hefyd, cynhaliodd Ben weithdy galw heibio ym Mharc Carafannau Traeth Talacre i greu llusernau bach â llaw. Mynychodd dros 100 o bobl, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dod i'r ŵyl a chymryd rhan yn yr orymdaith.

**Gweithdai Taflunio**
Roedd yr agwedd taflunio ar y prosiect i bobl ifanc, ysgolion a chlybiau ieuenctid. Gweithiodd yr artist, Ronan Devlin, gyda 2 grŵp o bobl ifanc i greu delweddau i'w taflunio ar Oleudy Talacre, gan ddefnyddio thema hanes lleol a beth sy'n bwysig iddyn nhw am eu cymuned. Gweithiodd Ronan hefyd gydag aelodau o'r gymuned yn ystod sesiynau 'galw heibio' yn y ganolfan gymunedol leol. Cafodd pob grŵp 2 weithdy, 2 awr yr un (neu un diwrnod 4 awr) i greu'r delweddau. Fe wnaeth yr artist yna drin y delweddau i dafluniadau animeiddiedig symudol a gafodd eu harddangos ar noson yr ŵyl. At ei gilydd, cyfranogodd 30 o bobl ifanc yn y gweithdai, gyda 35 o aelodau o'r gymuned yn bresennol yn y sesiwn galw heibio.

**Gweithdai Baneri**
Yn ystod mis Awst 2013, roedd Ronan Devlin yn artist preswyl ar Draeth Talacre dros ddau ddydd Sadwrn, gan redeg sesiynau galw heibio i wneud baneri i ymwelwyr â'r ardal. Cafodd y delweddau a gynhyrchwyd yn y gweithdai eu hargraffu ar faneri caled, pwrpasol, i'w hongian o'r polion lamp yn Nhalacre. Cafodd y baneri eu dadorchuddio yn yr ŵyl. Yn ystod y ddau ddiwrnod gweithiodd Ronan gyda 50 o bobl a oedd yn ymweld â'r ardal, yn ogystal â phobl leol. Mae'r baneri wedi'u cyflwyno i'r cyngor lleol i'w defnyddio yn y dyfodol.

**Yr Ŵyl**
Cynhaliwyd yr ŵyl deuluol ddydd Sul 27 Hydref rhwng 2pm ac 8.30pm, gyda'r orymdaith lusernau am 7.30pm o Barc Gwyliau Traeth Talacre at y Goleudy ar Draeth Talacre. Roedd yn anodd cyfrif faint o bobl oedd yn bresennol, ond amcangyfrifwyd bod dros 400 wedi dod i'r Ŵyl, gyda dros 200 yn aros am yr orymdaith. Roedd y fantais i fusnesau lleol yn amlwg, roedd y siop sglodion, sydd fel arfer yn cau am 4pm ar ddydd Sul, wedi aros ar agor tan y diwedd, ac roedd staff i'w gweld yn sefyll ar y palmant yn gwylio'r orymdaith.

Roedd llwyfan ar gyfer cerddoriaeth fyw, wedi'i drefnu gan hyrwyddwyr lleol Twisted Banana, a gweithgareddau a digwyddiadau eraill i'r teulu cyfan.

**Gweithdai Offerynnau Taro**
Ar brynhawn yr ŵyl, cynhaliwyd gweithdy taro offerynnau i'r teulu, ac roedd cyfranogwyr yn gallu ymuno â gorymdaith llusernau gyda'r nos, gan greu cerddoriaeth ar gyfer y daith gerdded o Dalacre i'r Goleudy. Cymerodd dros 80 o bobl ran yn y gweithdai offerynnau taro yn ystod y dydd, dan arweiniad yr artist Emma Louise. Fe wnaethant greu eu hofferynnau eu hunain allan o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, a rhoddwyd cyfarwyddiadau iddynt ar sut i'w chwarae. Ychwanegodd elfen gyffrous arall i orymdaith y nos i'r goleudy.

RRoedd pob un o'r gweithdai yn arwain at yr ŵyl, a'r holl weithgareddau yn ystod y digwyddiad yn rhad ac am ddim i bawb oedd yn bresennol.
**Cyfranogwyr: 495**
**Cynulleidfa: 400 (amcangyfrif)**
**Artistiaid: 22 (gan gynnwys aelodau band)**

**Cyllid:**
**Cyllidebau ACE a Thwristiaeth Cyngor Sir y Fflint £2,000**
**Cadwyn Clwyd: £15,000**
**CCC: £5,000**

**Adborth**
*"Hoffwn eich llongyfarch chi a phawb sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad anhygoel hwn, sydd â'r potensial i fod yn ddigwyddiad gwych dros y blynyddoedd.*
*Roedd fy wyrion ac wyresau wrth eu boddau.*

*Cofion cynnes*
*Cyng Glyn Banks."*

Gellir gweld ffilm o'r digwyddiad ar:
http://www.youtube.com/watch?v=Y0VC_h35xr8&feature=youtu.be

## Rhaglen Breswyl Melin Celf a Chrefft Treffynnon
Mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf a Menter Gymunedol Gorllewin Sir y Fflint Cyf, mae cyfres o dair rhaglen breswyl, pedair arddangosfa a thri dosbarth meistr wedi'u llunio ar gyfer Melin Celf a Chrefft Treffynnon. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Gymunedau yn Gyntaf, Menter Gymunedol Gorllewin Sir y Fflint Cyf a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Cynhaliwyd y rhaglen breswyl gyntaf yn Hydref 2013 gyda'r Artist Jan Gardner yn gweithio gydag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol i greu cyfres o weithiau celf ar raddfa fawr. Daeth y cyfnod preswyl i ben gyda gwaith Jan, a'r gwaith a grëwyd gan y cyfranogwyr, yn cael eu harddangos ochr yn ochr â'i gilydd yn Oriel y Felin.

Canolbwyntiodd yr ail raglen breswyl ar ffilm a drama gyda Theatr Trapdoor a TAPE, yn gweithio gydag unigolion i greu grŵp drama newydd ar gyfer Treffynnon. Fe wnaeth y rhai a gymerodd ran greu ffilm a pherfformio darn o ddrama byw yn Oriel y Felin i gynulleidfa o'r gymuned leol.

Bydd y rhaglen breswyl olaf yn digwydd yn Hydref 2014 gan ganolbwyntio ar Ddawns a Cherddoriaeth a gyflwynir gan NEWDance a'r cerddor Ynyr Llwyd.

**Cyfranogwyr: 55**
**Cynulleidfa: 48**
**Presenoldeb Oriel: 180**
**Cyllid:**

**Cymunedau yn Gyntaf a Menter Gymunedol Gorllewin Sir y Fflint Cyf £15,000**
**CCC: £15,000**

## Gŵyl Daniel Owen

Ddydd Sul 20 Hydref, fel rhan o Ŵyl Daniel Owen, fe wnaeth yr artist Ticky Lowe gynnal gweithdy i greu ffurfiau 3d mewn ffelt a ysbrydolwyd gan hadau a chodennau'r hadau.

Roedd y diwrnod yn cynnwys sioe sleidiau o waith a sgwrs am ffordd Ticky o weithio. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn cael cyfle i ymchwilio i wrthrychau ysbrydoledig Ticky, ac archwilio ei chasgliad o hadau a delweddau gan ddefnyddio microsgop USB. Yr ymchwiliadau hyn oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer creu gwrthrychau cerfluniol.

Roedd yna hefyd gyflwyniad ymarferol i wneud ffurfiau ffelt 3d, cyfle i wneud ffurf 3d syml gyda lliwiau cyferbyniol, ac yna ffurf 3d gymhleth ar raddfa fwy. Roedd y gweithdy wedi'i deilwra ar gyfer pob gallu, o'r rhai â diddordeb mewn rhoi cynnig arni, i'r artist mwy profiadol.

Talodd pob cyfranogwr £30 i gymryd rhan yn y gweithdy a oedd yn cwmpasu ffi yr artist a llogi Neuadd Bentref Santes Fair. Mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau meistr artist yn talu am eu costau eu hunain.

**Cyfranogwyr: 14**
**Incwm: £420**

## Prosiect Bagloriaeth Cymru Rhanbarthol gyda Chlwyd Theatr Cymru - Mawrth 2014

Mewn partneriaeth ag engage, Cymdeithas Genedlaethol Addysg Orielau, arweiniodd Cyngor Sir y Fflint ar brosiect Bagloriaeth Cymru rhanbarthol gyda holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Ymgeisiodd y Rheolwr Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau, ar ran y 6 sir, i CCC ar gyfer arian cyfatebol i redeg y prosiect mewn un lleoliad ag un ysgol / coleg fesul awdurdod. Yn anffodus, oherwydd bod eu partner addysgol wedi tynnu allan, nid oedd Cyngor Sir Gwynedd yn gallu cymryd rhan, ond cynhaliwyd dau brosiect yng Nghanolfan Grefft Rhuthun yn lle hynny. Cynhaliwyd prosiect Sir y Fflint yn Clwyd Theatr Cymru gyda disgyblion o Ysgol Alun.

Ffocws yr ymweliad oedd perfformiad llwyfan 'Dan y Wenallt' gan Dylan Thomas. Yn dilyn trafodaeth gyda'r athro, paratôdd y Swyddog Dysgu daith cefn llwyfan ac arddangosfa fechan o fodel dyluniad llwyfan, a lluniau cwpwrdd dillad a samplau tecstilau. Yna aeth y myfyrwyr i weithdy dan arweiniad actor o gast 'Dan y Wenallt'; paratôdd sesiwn yn seiliedig ar arddull ysgrifennu Dylan Thomas, gan gynnwys darlleniadau i dynnu sylw at gyflythreniad a gweithgaredd chwarae ar eiriau gyda geiriau o ddarn agoriadol y ddrama, a ddewiswyd gan y myfyrwyr i wneud eu barddoniaeth eu hunain. Roedd sgiliau perfformio'r actor a'i hyder o flaen cynulleidfa yn ei wneud yn athro medrus; yr oedd hefyd yn frwdfrydig dros Dylan Thomas gan wneud i'r myfyrwyr deimlo'n frwdfrydig hefyd. Gwyliodd y myfyrwyr y perfformiad a chawsant eu gwahodd i fynd i sgwrs ar ôl y sioe gyda rhai o'r actorion.

Datblygwyd y gweithgaredd i gwrdd â gofynion maes llafur Craidd CBC, ac roedd yn gyfle na fyddai fel arfer wedi bod ar gael i'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr, nad oedd yn dilyn cyrsiau lefel 'A' Saesneg neu Ddrama.

- **Ysgol:** 9 myfyriwr chweched dosbarth o Ysgol Alun, Yr Wyddgrug
- **Prif gysylltiadau CBC:** Cymru, Ewrop a'r Byd - Treftadaeth a Safbwyntiau Diwylliannol
- **Cyswllt dewis:** Dim
- **Agendâu eraill (ysgol):** Elfen iaith WEW

- **Agendâu eraill (oriel):** dysgu am CBC; codi ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r theatr ar garreg eu drws
- **Artist / llawrydd:** Christian Paterson

**Sylwadau**
Athro:

- *'Rydym yn gadael gan deimlo'n falch y bydd wir yn helpu i ffurfio bywyd y bobl ifanc. Roedd yn wych!'*
- *'Roedd hwn yn ymweliad sylweddol i'n myfyrwyr (maen nhw'n dal i siarad am y peth nawr, bron i ddeufis yn ddiweddarach!). Ni fydd ein myfyrwyr yn ei anghofio. Fyth.'*
- *'Fe wnaeth myfyrwyr werthfawrogi'r amrywiaeth o weithgareddau, ac roeddent yn hoffi'r ffaith ei fod yn ymweliad unigryw ym mhob ffordd.'*

Myfyrwyr:

- *'Roedd cael gweithio gydag actor yn arbennig o gyffrous'*
- *'Gwnewch yn siŵr bod y prisiau yn rhesymol gan na all myfyrwyr fforddio i wylio dramâu drud.'*

**Cyfranogwyr: 9**
**Cyllid: Cyllideb ACE Cyllideb Sir y Fflint, £500**
**Rhanbarthol: £2,500 gan Awdurdodau Lleol eraill, £1,500 o gymorth i logi lleoliadau, £5,000 CCC, engage £12,200**
**Gwariwyd yn Sir y Fflint: £3,617**

### Prosiectau Celf Cyhoeddus
Dros y 12 mis diwethaf, mae Rheolwr y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau wedi cynghori Swyddogion Adfywio ar y prosiectau celf cyhoeddus dilynol, a'u cynorthwyo, wedi'u hariannu gan Grantiau Datblygu Economaidd:

**Gwaith Celf Cyhoeddus Canol Tref Treffynnon**
**Gwaith Celf Cyhoeddus Gronant a Thalacre**
**Gwaith Celf Cyhoeddus Sgwâr Daniel Owen Yr Wyddgrug**

## Polisi a Strategaeth Gorfforaethol
### Strategaeth y Celfyddydau Cyngor Sir y Fflint 2014 - 2017
Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ym mis Ionawr 2014, gyda strategaeth ddrafft 2014-17 yn cael ei chwblhau erbyn mis Mai 2014. Mae'r adran ACE yn gweithio yn unol â'r strategaeth ddrafft, ond yn aros am gymeradwyaeth gan y Cabinet / Prif Swyddog fel y gall y ddogfen fynd yn gyhoeddus ac ar y wefan. I'w chwblhau Hydref 2014. Cyflawnwyd holl nodau ac amcanion yn Strategaeth y Celfyddydau 2008-2013.

### Strategaeth a Chynllun Busnes Digwyddiadau Cyngor Sir y Fflint
Mae Strategaeth a Chynllun Busnes Digwyddiadau'r Cyngor wedi'u cymeradwyo. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn y cynllun busnes hwn wedi'u cyflawni. I'w cwblhau erbyn Rhagfyr 2014.

### Bwrdd Menter Gymdeithasol Cyngor Sir y Fflint
Mae Rheolwr Ace yn aelod o'r Bwrdd Menter Gymdeithasol ac ar y gweithgor sy'n edrych ar gyllid, cynhadledd a marchnata allanol. Mae'r Gronfa Menter Gymdeithasol bellach yn weithgar ac mae un gynhadledd wedi'i chynnal, ac un arall wedi'i threfnu. Mae Rhwydwaith Menter Gymdeithasol Sir y Fflint wedi cael ei chreu ac yn gweithio'n dda.

## Polisi a Strategaeth Genedlaethol

### Meincnodi a Dangosyddion Perfformiad ar gyfer y Celfyddydau

Rheolwr y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau yw'r swyddog sy'n cynrychioli Gogledd Cymru ar weithgor Llywodraeth Cymru i lunio dangosyddion perfformiad ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru. Yn 2013-14 cafwyd y cynllun peilot cyntaf o gyflwyno'r DP ar draws y wlad.

## Cynrychiolaeth ar Fyrddau a Phwyllgorau Allanol

**Is-gadeirydd engage (hyd at fis Tachwedd 2013)**
**Cynrychiolydd Rhanbarthol Gogledd Cymru ADUK**
**Cadeirydd y Celfyddydau, Crefft a Thechnoleg, Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint 2016**
**Rhwydwaith Celfyddydau a Chrefft Gweledol Sir y Fflint**
**Grŵp Rhanddeiliaid Celfyddydau mewn Iechyd a Lles Gogledd Cymru**
**Celfyddydau Cymunedol Glannau Dyfrdwy**
**Grŵp Trefnwyr Digwyddiadau Gogledd Cymru**
**Yn cynrychioli Swyddogion Celfyddydau Gogledd Cymru ar Grŵp Ymgynghori Llywodraeth Cymru**

**Rheolwr y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau - Gwenno Eleri Jones**



# Y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau

# Prosiectau Tîm

## Gŵyl Gelfyddydau Sir y Fflint 2014
## Dydd Gwener 14 Mawrth - Dydd Sul 30 Mawrth

**Arddangosfa Rhwydwaith Celf a Chrefft Gweledol Sir y Fflint**
Llyfrgell, Amgueddfa ac Oriel Bwcle
Yn ystod oriau agor y Llyfrgell trwy gydol mis Mawrth
Mynediad am ddim
Trefnwyd gan Reolwr ACE

**Arddangosfa Ruth Thomas**
Oriel Llyfrgell Treffynnon
Yn ystod oriau agor y Llyfrgell trwy gydol mis Mawrth
Trefnwyd gan Reolwr ACE

### Dydd Gwener 14 Mawrth
**'Rhigymau a Phosau'**
Ymweliad Preifat
Ruth Thomas
. Oriel Addysg, Clwyd Theatr Cymru
1pm
Am ddim
Trefnwyd gan Swyddog Datblygu'r Celfyddydau

**Ysgol Gerdd Sir y Fflint -**
Ysgol Uwchradd Penarlâg
7.30pm
£6.00 - £4.00
Trefnwyd gan y Swyddog Digwyddiadau Cymunedol

### Dydd Sul 16 Mawrth
**Henry Sandon - Potaholic**
Ystafell Clwyd, Clwyd Theatr Cymru
2.00pm
£12 - £10
Trefnwyd gan Reolwr ACE

**DYLAN THOMAS - Clown in the Moon**

Neuadd Bentref Gwaenysgor

7pm

£7.00 - £3.50

Trefnwyd gan Swyddog Datblygu'r Celfyddydau

### Dydd Iau 20 Mawrth
**PAID Â MYND I'R NOS HEB OFYN PAM.....**
Cyflwynir gan NEW Dance
Neuadd Ddinesig Cei Connah
7.30pm
£4.00 - £2.00
Trefnwyd gan Swyddog Datblygu'r Celfyddydau

### Dydd Gwener 21 Mawrth

**SEMINAR NAWDD Y CELFYDDYDAU**
Cyflwynwyd gan Gelfyddydau a Busnes Cymru
Pafiliwn, y Fflint
10am - 4.30pm
£20 am y diwrnod (pris arferol £100) gyda chymhorthdal gan adain Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau Cyngor Sir y Fflint i Drefnwyr Digwyddiadau a Sefydliadau Celfyddydau yn Sir y Fflint
Trefnwyd gan Reolwr ACE

**Stephen Booth**
Llyfrgell Treffynnon
7.30pm
£4.00
Trefnwyd gan Staff y Llyfrgell a Rheolwr ACE

## Dydd Sul 23 Mawrth
**Noson yng Nghwmni Pam Ayres**
Clwyd Theatr Cymru
7.30pm
£20 - £18
Trefnwyd gan Swyddog Datblygu'r Celfyddydau

## Dydd Sadwrn 22 a dydd Sul 23 Mawrth
**Gŵyl Celf a Chrefft Gweledol**
Neuadd Eglwys y Santes Fair
10am - 4pm
Mynediad yn £1.00 wrth y drws
Trefnwyd gan Reolwr ACE

## Dydd Mawrth 25 Mawrth
**Marwolaeth yn y Dig**
Noson Dirgelwch Llofruddiaeth gyda Kate Ellis
Llyfrgell y Fflint
7.30pm
£4.00
Trefnwyd gan Staff y Llyfrgell a Rheolwr ACE

**Cubana Bop yn chwarae Jas ar yr ochr Ladin**
Cyflwyniad Jas Gogledd Cymru
Ystafell Clwyd, Clwyd Theatr Cymru
8pm
£15 - £12, Plant Ysgol £5.
Trefnwyd gan y Swyddog Digwyddiadau Cymunedol

## Dydd Iau 27 Mawrth
**Chwedlau Pentan gyda Taid**
Digwyddiad Noson Allan
Neuadd Goffa Edith Bankes
Llaneurgain
6.30pm
£5.00
Trefnwyd gan y Swyddog Digwyddiadau Cymunedol

## Dydd Sadwrn 29 Mawrth

**Côr Meibion y Rhos**
Eglwys y Santes Fair, yr Wyddgrug
7.30pm
£10 - £8
Trefnwyd gan Swyddog Datblygu'r Celfyddydau

**Noson Gyda Mererid Hopwood, Llwybr i'r Llenorion**
Mae hwn yn ddigwyddiad Cymraeg - i archebu tocyn cysylltwch â Llyfrgell yr Wyddgrug ar 01352 754791
canolfan atebion, Llyfrgell yr Wyddgrug
7.30pm
£2
Trefnwyd gan y Fenter Iaith a Rheolwr ACE

## Dydd Sul 30 Mawrth

**Gweithdy Gwneud Printiau Ruth Thomas**
Neuadd Bentref Rhosesmor
10am - 4pm
£30
Trefnwyd gan Reolwr ACE

**Cynulleidfa - Cyfranogwyr: 2,678**
**Incwm: £5,957.93**
**Cyllideb yr Ŵyl Gelfyddydau: £5,211**

## Criw Celf - Criw Celf Bach
## Dosbarthiadau Meistr ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog

Mae **Criw Celf Bach** yn glwb celf i blant 7 - 11 oed a gynhelir ar draws Gogledd Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnig y cyfle i blant greu celf gydag artistiaid proffesiynol yn ystod gweithdai celf misol. Bydd y sesiynau'n caniatáu ar gyfer archwilio deunyddiau celf, technegau a themâu mewn modd chwareus. Cydlynodd y Rheolwr ACE y prosiect gyda'r artist Honor Pedican yn darparu'r gweithdai.

Roedd sesiynau Criw Celf Bach ar gael yn y lleoliadau canlynol:
**Llyfrgell Treffynnon**
21 Medi
12 Hydref
16 Tachwedd
8 Chwefror
8 Mawrth

**Llyfrgell Brychdyn**
28 Medi
19 Hydref
23 Tachwedd
15 Chwefror
15 Mawrth

Roedd sesiynau yn 2 awr o hyd rhwng 10am a 12 hanner dydd, ar ddydd Sadwrn
£20 am bum sesiwn / £35 am ddeg sesiwn.

Dechreuodd **Criw Celf** yng Ngwynedd yn 2007 ac mae wedi bod yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a Chyngor Gwynedd dros y ddwy flynedd diwethaf.

Ers 2012, mae Cyngor Môn, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ymuno â chynllun Criw Celf i olygu mai hwn yw'r prosiect celf gweledol cyntaf ledled gogledd Cymru sydd wedi'i anelu at artistiaid ifanc mwy galluog a thalentog.

Roedd 18 o fyfyrwyr Criw Celf eleni, ac o'r rhain roedd 11 yn fyfyrwyr a ddychwelodd o 2012-2013. Buont yn gweithio gyda thri artist, ar ôl dwy sesiwn diwrnod llawn gyda phob un, gan ddefnyddio cyfryngau amrywiol.

- Ronan Devlin - celf ddigidol
- Sian Hughes - Syanoteip
- Maivina Bingham – gwneud Masgiau Affricanaidd

Mae Criw Celf yn cael ei reoli gan y Rheolwr ACE a'i gydlynu gan Beth Ditson ar eu liwt eu hunain, yn ychwanegol at ei gwaith fel Swyddog Digwyddiadau Cymunedol.

| **INCWM** | |
|---|---|
| Cyllidebau ACE CSyFf | £525.15 |
| Taliad Aelodaeth | £1170.00 |
| Grant CCC | £6985 |
| Cymorth y Cyngor | £400 |
| **Cyfanswm Incwm** | £9080.15 |
| **GWARIANT** | |
| **Cyfraniad:** Amser a theithio Rheolwr ACE, amser Swyddog Digwyddiadau Cymunedol, costau gweinyddu ychwanegol | £400 |
| **Marchnata:** Taflenni Criw Celf Bach, gweinyddu prosiect, Taflenni Criw Celf | £1,920 (ar ran y 6 sir) |
| **Criw Celf Bach:** Ffi Artist yn cynnwys teithio a deunyddiau | £1,300 |
| **Cydlynydd Criw Celf:**<br>£120 y diwrnod x 12 diwrnod yn cynnwys costau teithio<br>6 diwrnod gwaith<br>1 diwrnod ymweld â'r oriel<br>1 x ½ diwrnod ymddangosiad preifat o arddangosfa<br>4 ½ diwrnod o weinyddu | £1,440 |
| **Criw Celf:** 3 artist, pecynnau celf, lleoliadau, ymweliad oriel, llogi melin ar gyfer arddangosfa, fframiwr, technegydd, cyfieithu, ffotograffydd, paent a sgriwiau, lluniaeth PV | £4020.15 |
| **Cyfanswm Gwariant** | £9080.15 |

# Cytundebau Lefel Gwasanaeth

## NEWDance

**Datganiad Cenhadaeth**

a) Cydnabod bod yr holl bobl yn Sir y Fflint â'r hawl i gael profiad o ansawdd da mewn dawns.
b) Ymrwymiad i addysg y person cyfan fel proses gydol oes sy'n cydnabod yr agweddau emosiynol, deallusol, ysbrydol, diwylliannol ac academaidd ar ddatblygiad person.
c) Anogaeth barhaus i bennu disgwyliadau uchel ar gyfer pob myfyriwr, waeth beth fo'u hoedran, gan weithio tuag at lefelau uchel o gyflawniad.

**Cefndir**

Mae NEW Dance wedi darparu ystod o weithdai dawns ar gyfer oedolion a phobl ifanc yn Sir y Fflint.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi darparu cyllid i gefnogi gweithgareddau NEW Dance.

Mae Swyddog Datblygu Celfyddydau'r Cyngor yn sylwedydd ar Fwrdd Ymddiriedolwyr NEW Dance.

Mae'r **Cytundeb** yn darparu ar gyfer y gwasanaethau canlynol:-

**RHAGLEN DATBLYGU YSGOLION GŴYL DDAWNSIO SIR Y FFLINT**

Sesiynau HMS a chyfres o sesiynau mewn ysgolion i ddatblygu sgiliau cyflwyno athrawon dawns.  Bydd y rhaglen hon yn dod i ben wrth greu perfformiadau dawns o ansawdd uchel i'w perfformio yng Ngŵyl Ddawnsio '14 Sir y Fflint.

Mae'r cytundeb yn para o Ebrill hyd at Fawrth bob blwyddyn. Roedd y cytundeb ar gyfer 2013-14 yn werth £3,300. Mae'r cytundeb ar gyfer 2014-15 yn werth £2,970, sef gostyngiad o £330.

Mae'r CLG yn cael ei drafod a'i fonitro gan Trefor Lloyd Roberts, Swyddog Datblygu'r Celfyddydau ac yn cael ei dalu o gyllidebau ACE.

## Celfyddydau Cymunedol Glannau Dyfrdwy

**Datganiad Cenhadaeth**

a) Cydnabod bod yr holl bobl yng Nglannau Dyfrdwy â'r hawl i gael profiad o ansawdd da mewn dawns.
b) Ymrwymiad i addysg y person cyfan fel proses gydol oes sy'n cydnabod yr agweddau emosiynol, deallusol, ysbrydol, diwylliannol ac academaidd ar ddatblygiad person.
c) Anogaeth barhaus i bennu disgwyliadau uchel ar gyfer pob cyfranogwr, waeth beth fo'u hoedran a gallu, gan weithio tuag at lefelau uchel o gyflawniad.

**Cefndir**

Dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf, mae Celfyddydau Cymunedol Glannau Dyfrdwy wedi darparu a chefnogi ystod o weithdai a gweithgareddau celfyddydol i oedolion a phobl ifanc yn ardal Glannau Dyfrdwy.

Mae Clwyd, ac yna Cyngor Sir y Fflint wedi darparu cyllid i gefnogi gweithgareddau Dawns Gymunedol Glannau Dyfrdwy.

Dros y blynyddoedd, mae swyddogion gwahanol yr awdurdod wedi gwasanaethu ar y pwyllgor.

**Bydd Celfyddydau Cymunedol Glannau Dyfrdwy yn:**

1. Darparu Rhaglen Graidd o:
   - Ddiwrnodau Celfyddydau Creadigol ar gyfer disgyblion o ysgolion sy'n bwydo'r ddwy Ysgol Uwchradd yn ardal sy'n elwa o CCD.
   - Ariannu gweithgareddau celfyddydau cymunedol sy'n elwa o CCD.

2. Annog y datblygiad o weithgareddau Celfyddydau o fewn ei ardal o fudd.
I gynnwys:
<u>Yn gyffredinol,</u>
- y gymuned ehangach

<u>Yn benodol,</u>
- Ysgolion cynradd ac uwchradd
- Canolfannau ieuenctid
- Sefydliadau Celfyddydau
- Sefydliadau Oedolion

3. Ceisio cyllid pellach i gefnogi ei nodau, e.e. Cyngor Celfyddydau Cymru.

4. Hysbysebu ei waith a cheisio cyflwyniadau ar gyfer cefnogaeth gan ddefnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys taflenni'r wasg a chyhoeddusrwydd lleol.

Mae'r cytundeb yn para o Ebrill hyd at Fawrth bob blwyddyn. Roedd y cytundeb ar gyfer 2013-14 yn werth £2,500. Mae'r cytundeb ar gyfer 2014-15 yn werth £2,250, sef gostyngiad o £250.

Mae'r CLG yn cael ei drafod a'i fonitro gan Trefor Lloyd Roberts, Swyddog Datblygu'r Celfyddydau ac yn cael ei dalu o gyllidebau ACE.

## Clwyd Theatr Cymru – Adran Theatr mewn Addysg

**Cytundeb Lefel Gwasanaeth**
Mae'r Cytundeb yn sefydlu perthynas strwythuredig rhwng Cyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir y Fflint, yn arbennig Adain y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau (ACE), ac Adran Addysg Clwyd Theatr Cymru. (CTC gol.)

**Lefel y Gwasanaeth**
Bydd y Cytundeb yn para am y cyfnod 1 Ebrill 2013 tan 31 Mawrth, 2014.

Bydd Adran Addysg Clwyd Theatr Cymru yn darparu adroddiad blynyddol i gynnwys manylion yr holl weithgareddau a ariennir, ynghyd â dadansoddiadau ariannol.

**1. Cynhyrchiad Cyfnod Allweddol 2 - "Sky Hawk" - Cynnig Tocyn**
**Cynnig dau docyn am bris un** i bob ysgol yn Sir y Fflint fynychu cynhyrchiad/gweithdy Sky Hawk drwy'r dydd yn Clwyd Theatr Cymru.
**Cyfanswm cost y prosiect £60,000**
**Cais am gyllid: £5,000** *(tua £5.00 y disgybl)*

**2. Datblygiad Proffesiynol - Datblygu Llythrennedd Creadigol yn CA2**
Bydd ysgolion cynradd Sir y Fflint yn cael cynnig y cyfle unigryw hwn i fynychu dau weithdy datblygiad proffesiynol ar 'Straeon ac Adrodd Straeon - Datblygu Llythrennedd Creadigol yn CA2', un yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg.
**Cais am gyllid: £2,000**

**3. Prosiect Cefnogaeth Dysgu**
Rydym yn bwriadu gweithio gydag Ysgol Maes Hyfryd drwy gydol y flwyddyn i gyflwyno gweithdai drama yn wythnosol yn yr ysgol.
**Cais am gyllid: £6,000**

**4. Trawsnewidiadau Creadigol - Cynnig Peilot CA2 / CA3**
Cyfle i weithio gyda
disgyblion Blwyddyn 5 a 6 o 4 ysgol gynradd ym Mwcle; **Westwood, Southdown, Mountain Lane** a **Drury**, ynghyd â disgyblion blwyddyn 8 Ysgol Uwchradd Elfed ar greu digwyddiad a fydd yn gweithredu fel partneriaeth artistig a chreadigol gyda'r disgyblion, eu hysgolion cynradd sy'n eu bwydo, Ysgol Uwchradd Elfed a Chlwyd Theatr Cymru.
**Cost cyffredinol y prosiect: £12,000**
Rydym yn cynnig tri phartner cyllido cyfartal:
**Grant CCC Craidd CTCTYP:** -£4,000
**Ysgol Uwchradd Elfed:** -£4,000
**Cais am gyllid: £4,000** *(tua £10 y disgybl)*

**5. Unedau Cyfeirio Disgyblion Sir y Fflint**
**Uned Cyfeirio Disgyblion Canolfan Ddysgu ac Uned Cyfeirio Disgyblion Bryn Tirion**
**Model Arfer Gorau**
Mae Clwyd Theatr Cymru, ynghyd â'r Ganolfan Dysgu, yn datblygu model 'Arfer Gorau' i gyfranogi, ymgysylltu a datblygu gweithdai creadigol ar gyfer pobl ifanc 'heriol'. Gellir rhannu'r model hwn gydag ymarferwyr eraill sy'n dymuno gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.
**Costau:**
Ymchwil, datblygu a darparu 2 weithdy yr wythnos am 30 wythnos gan gynnwys costau gweinyddol
**Cost cyffredinol y prosiect: £11,600**
Cyfraniad Unedau Cyfeirio Disgyblion - £5,000
**Cais am gyllid: £6,600**

**6. The Hub - Prosiect Ymyrraeth Ysgolion Uwchradd**
Byddwn unwaith eto yn creu prosiect HUB yn ystod Hydref 2013 ac yn bwriadu aros o fewn Sir y Fflint. Mae dwy ysgol Sir y Fflint yn awyddus i gyfranogi, Ysgol Uwchradd Treffynnon ac Ysgol Uwchradd Dewi Sant. Rydym yn gofyn i'r ysgolion roi arian cyfatebol tuag at y cyfraniad a dderbyniwyd gan y CLG, a fydd yn £1,500 yr un.
**Cost cyffredinol y prosiect hwn yw £46,000**
**Niferoedd disgyblion (yn fras):**
Ysgol Uwchradd Treffynnon 622
Ysgol Uwchradd Dewi Sant 584
1,206
**Cais am gyllid: £3,000** *(tua £2.50 y disgybl)*

## Cyfanswm cost Gweithgarwch arfaethedig y Cytundeb Lefel Gwasanaeth: £26,600

Mae'r CLG yn cael ei drafod gan Gwenno Eleri Jones, Rheolwr ACE a'u monitro a'u trafod gan Trefor Lloyd Roberts, Swyddog Datblygu'r Celfyddydau ar ran AALl Sir y Fflint. Roedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer 2013-14 yn werth £26,600 gyda chytundeb ar gyfer 2014-15 yn werth £20,000, sef gostyngiad o £6,600. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei dalu o gyllideb y gwasanaeth addysg.

# Y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau
# Crynodeb Ystadegol

| | |
|---|---|
| **Ysgolion:** | **89** |
| **Grwpiau Cymunedol:** | **36** |
| **Cyfranogwyr:** | **8,550** |
| **Cynulleidfaoedd:** | **10,574** |
| **Cyllideb Graidd ACE:** | **£22,131.50** |
| **Cyllidebau / Grantiau Allanol:** | **£219,201.93** |
| **Cyllideb Graidd ACE Gwariant fesul cyfranogwr / cynulleidfa** | **£1.15** |

(Nodwch nad yw CLG Clwyd Theatr Cymru yn cael ei gynnwys yn y crynodeb hwn.) Mae adroddiad llawn ar gael ar gais)

**Diolch i Paula Jones a Ceri Steele, Llyfrgelloedd Cyhoeddus a'r Celfyddydau, am gefnogi'r Tîm ACE gyda'u gwaith.**

**Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r prosiectau neu ddigwyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn, cysylltwch ag adain y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau ar 01352 704400 neu gwenno.e.jones@siryfflint.gov.uk**